CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i:	**Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**
Dyddiad y cyfarfod:	**3 Mehefin 2021**
Teitl:	**Adroddiad Archwilio Mewnol – Adolygiad Fframwaith Llywodraethu 2020/21**
Pwrpas yr adroddiad:	**Rhoi gwybod i'r Aelodau am y canfyddiadau**
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	**Y Cynghorydd Ray Quant, Dirprwy Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet dros Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Pobl a Threfniadaeth, a Gwasanaethau Democrataidd**

Cynhaliwyd adolygiad yn ddiweddar o'r Fframwaith sy'n cefnogi Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2020/21.

Cyflwynwyd y Fframwaith Llywodraethu, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Leol i'r Pwyllgor ym mis Chwefror 2021. Roedd Aelodau'r Pwyllgor hefyd yn rhan o'r adolygiad.

Mae Archwilio Cymru yn rhoi barn archwilio am y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn seiliedig ar y ffaith ei fod yn gyson o ran eu gwybodaeth nhw ohono a'i fod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

Mae adolygiad yr adain archwilio mewnol yn cynnwys asesiad o'r gweithdrefnau sydd ar waith i baratoi'r fframwaith llywodraethu a'r fethodoleg sgorio a ddefnyddiwyd ynghyd ag ystyriaeth o'r 'dystiolaeth' a nodwyd yn y fframwaith.

Mae'r adolygiad hwn felly yn ategu gwaith Swyddfa Archwilio Cymru ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, ac mae'n rhoi sicrwydd bod y weithdrefn yn gadarn, yn benodol ac yn effeithiol.

Argymhelliad:	Nodi'r adolygiad a wnaed o'r Fframwaith Llywodraethu
Rhesymau dros y penderfyniad:	Er gwybodaeth yn unig
Atodiadau:	Adroddiad Archwilio Mewnol - Fframwaith Llywodraethu 2020/21
Pennaeth y Gwasanaeth:	Elin Prysor Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu / Swyddog Monitro
Swyddog Adrodd:	Amanda Roberts Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol
Dyddiad:	3 Mehefin 2021

GWASANAETHAU CYFREITHIOL A LLYWODRAETHU

LEGAL & GOVERNANCE SERVICES

GWASANAETH ARCHWILIO MEWNOL

INTERNAL AUDIT SERVICE

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD ARCHWILIO

Adolygiad Fframwaith Llywodraethu 2020/21

Paratowyd yr adroddiad gan: Amanda Roberts, Rheolwr Corfforaethol - Archwilio Mewnol

Dyddiad Cyhoeddi: 28 Ebrill 2021

ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL

Adolygiad Fframwaith Llywodraethu 2020/21

CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae adolygiad wedi'i gynnal yn ddiweddar o'r Fframwaith sy'n cefnogi Datganiad Llywodraethu Blynyddol (AGS) 2020/21.

Cynhaliwyd yr adolygiad i ategu gwaith swyddogion Archwilio Cymru sy'n rhoi eu barn ar sicrwydd bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn gyson o ran eu gwybodaeth nhw ohono a'i fod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

Er i'r pandemig effeithio'r dulliau o weithio a llywodraethu yn ystod 2020/21, mae'n bleser gennyf nodi bod y systemau a'r gweithdrefnau a archwiliwyd yn foddhaol, ac mae hyn yn galluogi'r Adain Archwilio Mewnol i roi sicrwydd uchel bod system gadarn o graffu a chadernid ar waith.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i Hannah Rees, y Swyddog Llywodraethu am ei chymorth a'i chydweithrediad parod yn ystod yr archwiliad.

AMCAN

Prif amcan yr asesiad yw adolygu gweithdrefn a threfniadau hunanasesu'r fframwaith llywodraethu, y fethodoleg sgorio a ddefnyddiwyd a'r dystiolaeth sydd ar gael, er mwyn rhoi barn i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Cyfreithiol a Llywodraethu ynglŷn â gwerthusiad yr Adain Archwilio Mewnol o'r trefniadau craffu a'r cadernid sydd i'w gweld yn y broses.

Y DULL GWEITHREDU A DDEFNYDDIWYD GAN YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL

Cafodd yr asesiad ei gynllunio er mwyn gwerthuso a gyrhaeddwyd y safonau penodol. Yn y bôn, y rhain yw'r safonau a amlinellwyd yn nogfen Gwell Llywodraethu CIPFA. Wrth wneud hynny, mae'r adain archwilio mewnol wedi gwneud y canlynol:

- Archwilio'r safonau a'r fframwaith,
- Cynnal trafodaethau gyda staff allweddol, ac
- Adolygu'r gweithdrefnau a ddefnyddir gan y gwasanaeth i baratoi'r fframwaith, gan gynnwys mynychu'r gweithdai.

CRYNODEB O'R CANFYDDIADAU

Mae'r Swyddog Llywodraethu yn gyfrifol am gydlynu a llunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r fframwaith sy'n ei gefnogi. Mabwysiadwyd y trefniant presennol o ran y fframwaith yn 2016/17 ac yn unol ag argymhelliad Archwilio Cymru (Swyddfa Archwilio Cymru ar y pryd), cynhaliwyd gweithdai i'r Aelodau / swyddogion fel y gellid craffu ar y fframwaith, ei adolygu a'i ddiweddaru bob blwyddyn.

Caiff yr eitemau sy'n dangos enghreifftiau o lywodraethu da wrth ymyl pob egwyddor eu rhestru / eu disgrifio fel tystiolaeth yn y fframwaith.

Yn ystod y gweithdai, cafodd yr Aelodau a'r swyddogion y cyfle i asesu'r eitemau hynny ac i'w sgorio, gan ddefnyddio'r system fel y nodir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol:

1/2	Annerbyniol – angen gweithredu ar frys
3/4	Yn is na boddhaol – angen gweithredu ar frys (o fewn 3-6 mis)
5/6	Boddhaol – angen gweithredu (cyn diwedd y flwyddyn, 9-12 mis)
7/8	Derbyniol – efallai bod angen cymryd rhai camau
9/10	Da – ystyrir bod y Llywodraethu, yn gyffredinol, yn dda ac yn bodloni'r arferion gorau – nid oes angen cymryd camau

Yn ogystal, lle nodwyd gwelliannau posibl, mae camau gweithredu priodol wedi'u cynnwys yng nghynllun gweithredu'r flwyddyn ganlynol.

Yn ystod yr adolygiad archwilio, aseswyd y dystiolaeth a sgoriau'r fframwaith, a darparwyd datganiad/barn ychwanegol i gadarnhau eu heffeithiolrwydd.

CASGLIAD

Ar ôl cynnal yr adolygiad, deuir i'r casgliad bod system gadarn o graffu a chadernid yn y systemau a'r gweithdrefnau sy'n paratoi ac yn sgorio'r Fframwaith - dangosir hyn ymhellach yn yr asesiad o'r dystiolaeth a ddarperir fel sicrwydd yn erbyn pob elfen yn y fframwaith.

MAR/AGS
28 Ebrill 2021

Rheolwr Corfforaethol - Archwilio Mewnol

Dosbarthwyd yr adroddiad i'r canlynol:
Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu / Swyddog Monitro
Hannah Rees, Swyddog Llywodraethu
GAC/AW